

# Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws: materion allweddol gan Bwyllgorau'r Senedd - diweddariad

Briff Ymchwil

Hydref 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/ymchwil](http://www.senedd.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7373**  
E-bost: **[gwasanaeth.ymchwil@senedd.cymru](mailto:gwasanaeth.ymchwil@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws: materion allweddol gan Bwyllgorau'r Senedd - diweddariad

Briff Ymchwil

Hydref 2020

---

**Golygyddion:**

Lucy Morgan a Sarah Hatherley



# Cynnwys

## **1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ..... 2**

1.1. Iechyd, amddiffyn a llesiant plant .....	2
1.2. Gofal plant .....	2
1.3. Addysg cyn 16 oed .....	2
1.4. Addysg ôl-16.....	3

## **2. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion**

### **Gwledig.....4**

2.1. Amaethyddiaeth a diogelwch bwyd.....	4
2.2. Lles anifeiliaid.....	4
2.3. Pysgodfeydd a dyframaeth.....	4
2.4. Ansawdd aer.....	4
2.5. Adferiad gwyrdd/glas a newid hinsawdd.....	4

## **3. Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu..... 5**

3.1. Y Gymraeg.....	5
3.2. Newyddiaduraeth a chyfryngau lleol .....	5

## **4. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ..... 6**

4.1. Busnes a'r economi .....	6
4.2. Trafnidiaeth .....	7

---

4.3. Sgiliau .....	8
--------------------	---

## **5.Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**9

5.1. Cydraddoldeb a thlodi .....	9
----------------------------------	---

5.2. Digartrefedd .....	9
-------------------------	---

5.3. Llywodraeth Leol .....	10
-----------------------------	----

## **6. Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**11

6.1. Cyfnod pontio'r UE.....	11
------------------------------	----

## **7. Y Pwyllgor Cyllid .....**12

## **8. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.....**13

8.1. Cyfyngiadau coronafeirws lleol.....	13
------------------------------------------	----

8.2. Paratodau'r gaeaf.....	13
-----------------------------	----

8.3. Ailddechrau gwasanaethau iechyd cyffredin.....	14
-----------------------------------------------------	----

8.4. Profi Orlhain Diogelu (POD) .....	14
----------------------------------------	----

8.5. Gofal cymdeithasol.....	15
------------------------------	----

8.6. Iechyd meddwl.....	15
-------------------------	----

## **9. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ..**16

9.1. Deddfwriaeth .....	16
-------------------------	----

9.2. Cyfiawnder .....	16
-----------------------	----

## **10. Y Pwyllgor Deisebau .....**17

---

## **11. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus .....19**

11.1. Addysg ..... 19

11.2. Comisiwn y Senedd ..... 19

11.3. Materion eraill ..... 20

## Cefndir

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn darparu diweddariad i'r papur **Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws: materion allweddol o bwylgorau'r Senedd** a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 cyn i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog gyfarfod y mis hwnnw. Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnwys cadeiryddion holl bwylgorau eraill y Senedd ac, fel arfer, mae'n cyfarfod unwaith y tymor.

Ar 22 Hydref, bydd **Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog** y Senedd yn craffu ar Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydgyssylltu gwaith Llywodraeth Cymru ar adferiad o'r pandemig. Yn dilyn y sesiwn hon, creffir ar waith Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog, ynghylch dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â phandemig y coronafeirws a'r cyfnod pontio Ewropeaidd ar yr un diwrnod.

Yn ystod y pandemig, mae gwaith pwyllgorau'r Senedd wedi canolbwyntio ar effaith y feirws a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb. Nid yw'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn trafod yr holl faterion sy'n codi o'r pandemig sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod gwaith craffu. Yn hytrach, mae'n darparu diweddariad ar y materion allweddol wrth edrych tua'r dyfodol. Mae wedi'i lunio i gefnogi'r Aelodau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 22 Hydref. Fodd bynnag, rydym yn ei gyhoeddi o ystyried budd ehangach y cyhoedd yn yr ymateb i'r pandemig.

Mae'r dystiolaeth gefndir ym mhob cyfarfod pwyllgor, a'r adroddiadau a luniwyd gan y pwyllgorau hynny, **i'w gweld ar eu tudalennau gwe.**

## 1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad** ar 8 Gorffennaf 2020, gan roi crynodeb o'i **waith hyd yn hyn ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc**. Trafodwyd yr adroddiad yn y **Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf 2020**. Gofynnodd y Pwyllgor am farn plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig a cyhoeddodd y ddau grynodedb cyntaf ym mis **Mehefin** a mis **Gorffennaf**. Mae ei ymgynghoriad ysgrifenedig ar effaith COVID **yn parhau i dderbyn cyflwyniadau**.

### 1.1. Iechyd, amddiffyn a llesiant plant

- Mae'r Pwyllgor yn credu bod **angen bod rheoli effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn flaenoriaeth glir i Lywodraeth Cymru** a'i holl gyrff cyhoeddus cysylltiedig. Er ei fod yn cydnabod ei bod yn ymddangos bod llai o duedd i blant ddal y feirws nag oedolion, mae'n pryderu bod **effeithiau ehangach COVID-19, a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli, wedi cael effaith sylweddol ar eu bywydau**, gan achosi 'difrod anuniongyrchol' iddynt. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys plant difreintiedig a'r rhai mwyaf agored i niwed.
- Mae gwaith parhaus y Pwyllgor i graffu ar y cymorth ar gyfer **problemau iechyd meddwl a llesiant plant sydd wedi codi yn sgil COVID-19**, yn dilyn ei bryder bod y ffocws ar iechyd meddwl wedi'i ddad-flaenoriaethu o gofio'r ffocws dealladwy ar anghenion iechyd corfforol. Mae hyn yn faes sydd o diddordeb sylweddol i'r Pwyllgor a chyhoeddwyd ei **adroddiad dilynol i'r adroddiad Cadernid Meddwl** ar 9 Hydref 2020.
- Mae gan y Pwyllgor bwyslais parhaus y **dylai hawliau plant fod yn ganolog i holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru**, gan gynnwys ei hymateb i COVID-19. Felly, mae wedi croesawu datganiadau gan Lywodraeth Cymru bod **cadw ysgolion ar agor yn flaenoriaeth**.

### 1.2. Gofal plant

- Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb parhaus yn **narpariaeth gofal plant**, yn enwedig **hyfywedd ariannol lleoliadau** a sut y gellir rheoli trefniadau cyllido Llywodraeth Cymru fel na fydd rhai darparwyr gofal plant yn methu cael gafael ar gymorth.

### 1.3. Addysg cyn 16 oed

- Dyma rai o'r prif faterion a drafododd y Pwyllgor:
- **Parhad addysg i'r holl ddisgyblion pan fo ysgolion ar gau**, gan gynnwys y



rhai nad ydynt yn defnyddio darpariaeth mewn hybiau. Yr **anhydraddoldeb posibl sy'n deillio o brofiadau gwahanol dysgu gartref** plant a phobl ifanc oherwydd ffactorau megis technoleg a chymhorthion dysgu digidol eraill, tai ac amodau byw, a gallu rhieni i helpu eu plant i ddysgu gartref.

- **Effaith canslo arholiadau 2020** a'r trefniadau ar gyfer rhoi graddau. Cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn ym mis Awst** gyda'r corff dyfarnu, y rheoleiddiwr a'r Gweinidog.
- **Goblygiadau camau nesaf myfyrwyr** ac **effaith yr amser addysgu a gollwyd** ar y cwricwlwm a'r cymwysterau yn 2021.
- **Cynlluniau wrth gefn os bydd tarfu ar weithrediadau ysgolion eto** a sut i wella **effeithiolrwydd a chyrhaeddiad dysgu cyfunol** os mai hwnnw fydd y prif fath o ddarpariaeth eto. Comisiynodd y Pwyllgor **astudiaeth ar addysgu o bell a dysgu** dan gynllun Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 Ymchwil y Senedd.

#### 1.4. Addysg ôl-16

- Ym **mis Awst**, trafododd y Pwyllgor yr **heriau ynghylch canlyniadau arholiadau'r haf**, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, a pha effaith y byddai'r rhain yn ei chael ar ddysgwyr a'u canlyniadau addysgol.
- **Ers yr hydref, mae'r Pwyllgor wedi trafod y pwnc allweddol ynghylch sut y mae'r sector addysg uwch yn rheoli trosglwyddiad COVID-19 ac effaith y pandemig ar staff, myfyrwyr a'r ardal ehangach lle y mae prifysgolion.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at holl is-gangellorion Cymru ddechrau mis Hydref "i ofyn am sicrwydd ynghylch y camau y mae eich prifysgolion yn eu cymryd i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru".

## 2. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

### 2.1. Amaethyddiaeth a diogelwch bwyd

- Mae'r Pwyllgor yn trafod sut y mae pandemig COVID-19 yn effeithio ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran polisi bwyd a **risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r pandemig a Brexit gyda'i gilydd**.
- Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth o **gynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr am gynnyrch a dyfir yng Nghymru** ers argyfwng COVID-19. Mae'n trafod y posibilrwydd i'r galw hwn **droi'n newidiadau tymor hir** gyda Llywodraeth Cymru.

### 2.2. Lles anifeiliaid

- Mae'r Pwyllgor yn trafod **cydnerthedd y sector achub anifeiliaid** yn sgil COVID-19. Mae wedi cael tystiolaeth bod **llawer o grwpiau achub perygl o ansolfedd**. Mae'r Pwyllgor yn ceisio gwybodaeth am opsiynau cymorth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.
- Mae COVID-19 wedi cael **effaith ddifrifol ar filfeddygfeydd**. Mae'r Pwyllgor yn ceisio gwybodaeth am y grantiau a'r opsiynau cymorth sydd ar gael.

### 2.3. Pysgodfeydd a dyframaeth

- Mae'r Pwyllgor yn trafod **cymorth ariannol** Llywodraeth Cymru i fusnesau dyframaethu a physgodfeydd drwy'r **Cynllun Busnesau Dyframaethu a Grant Pysgodfeydd Cymru**.

### 2.4. Ansawdd aer

- Mae'r Pwyllgor yn edrych ar effaith y pandemig ar lygryddion aer. Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wrth y Pwyllgor, er bod **lefelau rhai llygryddion wedi gostwng yn ystod y pandemig, fod eraill wedi cynyddu**.

### 2.5. Adferiad gwyrdd/glas a newid hinsawdd

- Mae'r Pwyllgor yn trafod opsiynau ar gyfer adferiad gwyrdd/glas fel rhan o'i raglen waith barhaus. Mae wedi gofyn i'r Gweinidog yn ddiweddar **sut y bydd blaenoriaethau morol yn rhan o'r adferiad**.
- Mae'r Pwyllgor yn trafod effaith y pandemig ar **gyrff anllywodraethol amgylcheddol** a sut y gallai hyn effeithio ar agenda Twf Amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

## 3. Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

### 3.1. Y Gymraeg

- Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal ymchwiliad i effaith y pandemig ar **hybu a defnyddio'r Gymraeg** yng Nghymru. Mae'n edrych ar effaith economaidd, ddiwylliannol a chymunedol **gohirio neu ganslo gwyliau a gweithgareddau lleol** a chenedlaethol sy'n cefnogi'r iaith a'i defnydd.
- Ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor yn ddiweddar, gan nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn "diogelu cadernid ein cymunedau a'n rhwydweithiau Cymraeg, gan fwrw ymlaen â'n **hymrwymadau i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu ac yn defnyddio'r iaith**".

### 3.2. Newyddiaduraeth a chyfryngau lleol

- Ym mis Medi, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar **Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol**. Mae dirywiad mewn elw – gan arwain at **gau papurau newydd, colli swyddi a chydgrynhoi'r farchnad gan y cwmnïau mawr** – wedi bod yn nodweddion o newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru (ac yn fyd-eang) ers degawdau. Cafodd y **model busnes bregus** hwn ei **ddifrodi ymhellach gan yr argyfwng**, gyda dirywiad mewn refeniwiau hysbysebu a chylchrediad print.
- Yn ei **adroddiad ar effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol**, fel y Prif Weinidog, roedd gan y Pwyllgor **bryderon** bod **colli rhagor o swyddi** yn y sector yn ystod yr argyfwng yn "niweidiol i ddemocratiaeth". Fodd bynnag, roedd yn teimlo "heblaw am gymorth, sydd i'w groesawu, ar gyfer cyhoeddiadau hyperleol, n[a]d yw'n eglur sut y mae Llywodraeth Cymru wedi troi'r pryder hwn yn gamau gweithredu".
- Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn "**baradocs annerbyniol**, wrth i'r Senedd ennill rhagor o bwerau, fod newyddiaduraeth er budd y cyhoedd wedi encilio o Gymru". Galwodd ar Lywodraeth Cymru "i gymryd camau cadarnhaol ar frys i **gefnogi newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru**".

## 4. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, sef **Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynol** ym mis Mehefin 2020, ac **ymatebodd** Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf 2020.

Cyhoeddodd y Pwyllgor **Effaith COVID-19: Sgiliau** – canfyddiadau cynnar ym mis Mehefin 2020, ac **ymatebodd** Llywodraeth Cymru ar 28 Gorffennaf 2020.

Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiadau hyn (cyn cyhoeddi ymatebion Llywodraeth Cymru) **ar 1 Gorffennaf 2020**.

Dechreuodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth lafar yn ei ymchwiliad ar adferiad economaidd o bandemig y coronafeirws ym mis Medi 2020.

### 4.1. Busnes a'r economi

- Mae ymchwiliad y Pwyllgor i'r adferiad economaidd o'r pandemig wedi **clywed tystiolaeth gan sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau ynghylch yr ansicrwydd y mae'r sefyllfa newidiol yn ei greu, ac am yr heriau y mae llawer o fusnesau'n eu hwynebu wrth orosi misoedd y gaeaf**. Yn benodol, mae'r pandemig yn cael effaith ddifrifol ar sectorau'r economi sylfaenol, neu 'gyffredin' megis twristiaeth, lletygarwch a gwallt a harddwch, ac maent wedi tynnu sylw at yr angen am gymorth y llywodraeth i'w sectorau y tu hwnt i'r cyhoeddiadau diweddar a wnaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Clywodd y Pwyllgor bryder eang hefyd am **swyddi a allai gael eu colli pan fydd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) yn dod i ben**. Er bod cyflogwyr mwy o faint mewn sectorau megis gweithgynhyrchu'n teimlo y gallai'r Cynllun Cefnogi Swyddi a fydd yn dilyn hyn ddiwallu eu hanghenion, roedd busnesau llai o faint mewn sectorau megis twristiaeth, lletygarwch a gwallt a harddwch yn teimlo nad oedd yn ddigon o gymhelliant i gwmnïau barhau i gyflogi pobl.
- Rhoddodd **academyddion** dystiolaeth i'r Pwyllgor ar **yr heriau y mae Cymru yn eu hwynebu o ran adferiad**. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau isel o entrepreneuriaeth; lefelau isel o gyllid ar gyfer arloesedd; cynhyrchiant isel; a sgiliau digidol. Gwnaethant dynnu sylw at **yr angen i roi hwb i gydnerthedd economi Cymru**, a rôl buddsoddi mewn sgiliau ac arloesedd wrth sicrhau cydnerthedd i sioc economaidd.
- **Mae buddsoddiad mewn seilwaith ac 'adferiad gwyrdd'** hefyd wedi'u codi

gan dystion. Trafododd melinau trafod, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau ac undebau llafur oll ffyrdd posibl y gallai Llywodraeth Cymru **ysgogi'r economi drwy fuddsoddi mewn seilwaith**. Roedd hyn yn **cynnwys seilwaith gwyrdd** megis ôl-osod tai, mannau gwefru cerbydau trydan ac ynni carbon isel, yn ogystal â seilwaith cymdeithasol megis iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.

- Mae'r Pwyllgor hefyd wedi **clywed tystiolaeth ynglŷn â gweithio o bell, yng nghyd-destun uchelgais Llywodraeth Cymru i 30 y cant o'r gweithlu weithio o bell yn rheolaidd**. Mae busnesau ac undebau llafur wedi gwneud y pwynt, er y **gall fod yn addas i lawer o weithwyr, nad oes modd i bawb weithio gartref**. Gall hyn fod oherwydd eu swydd, neu oherwydd nad yw'n addas i'w hamgylchiadau personol.
- Mae'r **anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi tynnu sylw atynt** hefyd wedi'u trafod yn sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor. Roedd y materion y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys effeithiau'r pandemig ar weithwyr o gymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; sut y gallai newidiadau i drefniadau gweithio gefnogi gweithwyr anabl; ac effeithiau gwahanol y pandemig ar rannau gwahanol o Gymru.
- Mae **undebau llafur** a **melinau trafod** wedi dweud wrth y Pwyllgor am **fesurau y gellid eu cymryd i gynyddu gwaith teg**. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio trefniadau caffael i gynyddu taliad y Cyflog Byw gwirfoddol a mynd i'r afael â chontractau dim oriau a mathau eraill o waith ansicr; codiadau cyflog i weithwyr allweddol mewn sectorau megis gofal cymdeithasol; a recriwtio gweithwyr yn ôl i'r sector cyhoeddus.

## 4.2. Trafnidiaeth

- Mae'r Pwyllgor wedi trafod **goblygiadau cyfiawnder cymdeithasol** y ffaith nad oes **gan lawer o aelwydydd yng Nghymru fynediad at gar**, ac **nad yw'r defnydd o fysiau a threnau yn enwedig wedi adfer** i'r un graddau â theithio mewn car.
- Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y **rheswm dros newidiadau yn y galw teithio** – er enghraifft **canfyddiadau bod trafndiaeth gyhoeddus yn llai diogel, gweithio gartref a bod arferion yn newid**. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod ymdrechion i wella cyfathrebu a **magu hyder y cyhoedd** yn bwysig, ynghyd ag ymdrechion i wella prisiau trafndiaeth gyhoeddus a **datblygu opsiynau tocynnau hyblycach**, gan adlewyrchu patrymau teithio newydd, ac i **gynnal y lefelau prydlondeb** sy'n bosibl yn ystod y pandemig.
- Mae tystiolaeth gan randdeiliaid trafndiaeth wedi galw am feddwl yn arloesol, ac ategu **cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gartref**. Fodd

bynag, gan y gallai rhwydweithiau trafndiaeth gyflawni dibenion gwahanol yn y dyfodol, **bydd angen i wasanaethau ymateb a newid.**

- Mae'r Pwyllgor hefyd wedi trafod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer dyfodol ansicr, gyda **newidiadau a allai fod yn sylweddol o ran sut a pham rydym yn teithio nad oes dealltwriaeth dda ohonynt ar hyn o bryd.**

### 4.3. Sgiliau

- Sicrhau y **gall y system sgiliau ymateb i newidiadau yn y farchnad lafur**, a bod y **sgiliau a gyflenwir yn gyson â'r galw priodol** ar gyfer adferiad.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data ar brentisiaid a oedd wedi bod ar ffyrlo/colli eu swyddi. Mae'r data hyn **wedi'u cyhoeddi wedi hynny** ac yn dangos y bu **tua 7,770 o brentisiaid ar ffyrlo ar anterth y pandemig gyda 255 o brentisiaid wedi colli eu swyddi hyd yn hyn** (cafodd prentisiaeth 50 o'r rhain ei therfynu gyda'r gweddill yn parhau i ddysgu wrth chwilio am gyflogwyr eraill).
- Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi clywed bod y **pandemig wedi cyflymu newidiadau i rai swyddi a sectorau**, gyda'r rhain yn aml yn ychwanegol at esblygiad arferol a thymor hwy sydd ar sail cysyniadau megis Diwydiant 4.0. Hefyd, mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi clywed y bu **effaith anghyfartal y pandemig ar draws sectorau gwahanol** ac y bydd yn debygol o barhau, gydag effaith sylweddol ar y sectorau manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth, yn ogystal â swyddi mewn diwydiannau megis hedfan a dur. Ar yr un pryd, mae'r galw am sgiliau digidol yn debygol o gynyddu.

## 5. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Mae'r Pwyllgor CLILCh wedi cyhoeddi **galwad benagored am dystiolaeth ers mis Mai** i effaith y pandemig ar faterion yn ei bortffolio, gan gynnwys: cydraddoldeb a hawliau dynol, tlodi, tai, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Mae wedi cael mwy na **50 o ymatebion ysgrifenedig** hyd yn hyn.

### 5.1. Cydraddoldeb a thlodi

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad: **Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig** ym mis Awst. Gwnaeth 44 o argymhellion yn ymwneud ag ystod o faterion, gan gynnwys:

- Cyhoeddi asesiadau effaith cydraddoldeb a data cydraddoldeb o ansawdd;
- Llacio dyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl yn Neddf y Coronafeirws;
- Sicrhau bod pobl yn gwybod eu hawliau i fudd-daliadau a'u hawliau cyflogaeth;
- Mesurau i leihau tlodi;
- Gwerthfawrogi gofal a gofawyr;
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd ac addysg;
- Amddiffyn pobl sy'n debygol o wynebu trais a chael eu cam-drin;
- Gwella hygyrchedd i bobl anabl;
- Sicrhau nad yw mudwyr yn cwmpo rhwng y bylchau yn y cymorth.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn ym mis Medi, ac mae crynodeb ar gael yn **yr erthygl hon**.

### 5.2. Digartrefedd

- Clywodd y Pwyllgor **dystiolaeth lafar** gan ystod o randdeiliaid o'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat ar yr **ymateb i ddigartrefedd a chysgu ar y stryd yn ystod y pandemig**.
- Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod materion ehangach ynghylch **pwysigrwydd cartref addas a diogel yn ystod y pandemig**, ymateb landlordiaid cymdeithasol, materion sy'n effeithio ar y sector preifat a newidiadau dros dro i gyfnodau rhybudd troi allan.

### 5.3. Llywodraeth Leol

- **Ar 16 Gorffennaf 2020, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan CLILC** ar ymateb llywodraeth leol i'r pandemig, a'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu. Pryder allweddol i'r sector oedd y gwariant ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i ymateb i'r pandemig, yn ogystal â gostyngiad mewn incwm a gostyngiad mewn derbyniadau treth gyngor.
- **Ar 17 Awst 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol becyn cyllido** ar gyfer y sector a fyddai'n cynnwys hwb ychwanegol gwerth £260 miliwn ar ben y cymorth presennol a gafwyd. Bydd cyfanswm y cymorth ariannol i awdurdodau lleol yn ystod y pandemig yn dod i bron hanner biliwn o bunnoedd.



## 6. Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

### 6.1. Cyfnod pontio'r UE

- Daw cyfnod pontio Brexit i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r **pandemig wedi tarfu ar y negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a'r paratodau domestig**, sy'n ofynnol boed a ydynt yn dod i gytundeb ai peidio. Mae'r DU a'r UE wedi nodi y **bydd angen dod i gytundeb ar berthynas yn y dyfodol erbyn diwedd mis Hydref**.
- Mae sectorau busnesau a rhanddeiliaid wedi nodi bod y **pandemig wedi effeithio ar eu gallu i baratoi at ddiwedd y cyfnod pontio**. Mae busnesau wedi tynnu sylw bod **rhoi staff ar ffyrlo am resymau economaidd wedi golygu llai o amser i hyfforddi a pharatoi at y newidiadau** a fydd yn ofynnol.
- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei dogfen **senario achos gwaethaf rhesymol**, sy'n amlinellu tybiaethau cynllunio'r llywodraeth ar gyfer tarfu posibl ar drefniadau cludo nwyddau rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'r ddogfen yn nodi y **gallai cynnydd mewn achosion COVID-19 yn y gaeaf atal y galw am gludo nwyddau**, gan gyfyngu ar faint o aflonyddwch traffig a achosir gan ddiffyg parodrwydd ar y ffin. Fodd bynnag, gallai diffyg posibl staff porthladdoedd ac ar y ffin hefyd gael effaith negyddol ar lif masnach.
- Mae **pedair llywodraeth y DU wedi parhau i weithio i ddatblygu fframweithiau cyffredin** i reoli gwahaniaeth mewn meysydd polisi a oedd yn cael eu llywodraethu gan gyfraith yr UE o'r blaen megis amaethyddiaeth a physgodfeydd. Roedd y llywodraethau wedi gobeithio cwblhau'r rhain erbyn mis Rhagfyr 2020 ond **mae'r gwaith wedi'i ohirio, yn rhannol oherwydd y pandemig**. Mewn nifer o feysydd polisi, bydd trefniadau dros dro bellach yn cael eu rhoi ar waith.
- Mae **Llywodraeth y DU hefyd yn ceisio negodi cyfres o gytundebau rhyngwladol a/neu ymuno â hwy**, gan gynnwys trosglwyddo cytundebau masnach yr UE fel rhan o'r Rhaglen Parhad Masnach, a chytundebau masnach newydd gyda'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd. **Mae'r pandemig wedi cael effaith ar amllder a natur sgysiau masnach y DU**. Fodd bynnag, mae sgysiau wedi parhau gyda negodiadau rhithwir yn cael eu cynnal pan nad yw sgysiau wyneb yn wyneb wedi bod yn bosibl.

## 7. Y Pwyllgor Cyllid

- **Cred** y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod **Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am gyhoeddiadau allweddol sy'n effeithio ar bobl a busnesau Cymru**, megis newidiadau i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws neu bolisiau olynol, mewn modd amserol sy'n ei galluogi i gynllunio polisiau cydategol yn effeithiol.
- Cododd y Pwyllgor y pryderon hyn yn ystod **sesiwn graffu gyda Simon Hart AS**, yr Ysgrifennydd Gwladol, ar **13 Gorffennaf**. Yn benodol, roedd yr Aelodau'n cael trafferth cysoni hawliadau ynghylch cyllid ychwanegol o Ddatganiad Haf y DU a galwodd am **dryloywder gwell** mewn perthynas â **chyhoeddiadau cyllid Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru** yn y dyfodol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn cyflwyno **Cyllideb Atodol ychwanegol ym mis Hydref**. Bydd y Pwyllgor yn mynd ar drywydd cynnydd o ran bodloni **argymhellion o Gyllideb Atodol mis Mai** ynghylch defnydd Llywodraeth Cymru o'r cyllid ychwanegol hwn sy'n gysylltiedig â COVID ac ymdrechion i geisio hyblygrwydd ychwanegol i reolau yn y **Fframwaith Cyllidol** ynghylch benthyca ac ailddyrrannu arian rhwng cyfalaf a referniw i ymateb i'r pandemig.
- Mae'r Pwyllgor yn **cynnal ymchwiliad** i drafod **datganoli treth i Gymru**, gan gynnwys **sut y gallai Llywodraeth Cymru dyfu sylfaen drethu Cymru** i helpu i fynd i'r afael ag effaith COVID ar wariant cyhoeddus a phenderfynu addasrwydd y Fframwaith Cyllidol i alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i ddigwyddiadau economaidd mawr megis pandemig COVID.
- Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol, Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiwn y Senedd, ynghylch eu dull gweithredu o ran eu harbedion a'u costau sy'n ymwneud â COVID. Bydd gwaith craffu ar gyllidebau blynyddol y cyrff hyn yn dilyn hyn.

## 8. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Ers mis Ebrill 2020, mae'r Pwyllgor wedi bod yn cynnal ymchwiliad i effaith yr argyfwng ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad cyntaf o'r ymchwiliad**. Gydag 28 o argymhellion, nododd fod y pandemig wedi amlygu gwendidau mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys trefniadau cychwynnol ar gyfer cynhyrchu a chaffael cyfarpar diogelu personol, y drefn ar gyfer profi, a'r gallu i amddiffyn pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae **erthygl gryno** wedi'i chyhoeddi a **thrafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn** ar 30 Medi 2020.

Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi **galwad agored am safbwyntiau** fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

### 8.1. Cyfyngiadau coronafeirws lleol

- Ddechrau'r hydref, mae **cyfyngiadau lleol** wedi'u **gosod mewn mwy na hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru**, ar draws gogledd a de Cymru i raddau helaeth.
- Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), y Gell Cyngor Technegol (CCT), SAGE Annibynnol, ac CLILC. Clywodd y Pwyllgor fod **cyfyngiadau'n cael eu cyflwyno yn dilyn cynnydd sydyn a chyflym mewn achosion a gadarnhawyd**; mae dystiolaeth yn awgrymu bod yr achosion yn amrywio ym mhob ardal, ond maent yn cynnwys grwpiau o bobl sy'n cwrdd dan do, heb ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol, a dychwelyd o wyliau tramor gyda COVID-19.
- Mae **Cynllun Rheoli Coronafeirws Llywodraethau Cymru** yn nodi'r **meini prawf ar gyfer cyflwyno neu lacio cyfyngiadau**, gan gynnwys y prif ddangosyddion i ategu penderfyniadau. Ar yr un pryd, clywodd yr Aelodau gan ICC, yr CCT a'r Gweinidog y **bydd penderfyniadau yn cael eu llywio gan y dangosyddion hyn**, yn ogystal â'r **cyd-destun lleol a'r sefyllfa ar lawr gwlad**, gan gynnwys cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol a chenedlaethol.

### 8.2. Paratodau'r gaeaf

- Yn draddodiadol, mae'r gaeaf yn golygu **mwy o bwysau brys ar iechyd a gofal cymdeithasol**. Mae **ymchwil gan yr CCT** wedi awgrymu y **gallai brig nesaf COVID-19 ddigwydd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021**, gyda brig sylweddol mewn derbyniadau i'r ysbyty.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **Chynllun Diogelu ar gyfer y Gaeaf**, a chlywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y **rôl hanfodol y byddai'r ymgyrch brechu rhag y ffliw** yn debygol o'i chael y gaeaf hwn. **Nododd ICC** fod **bwriad y cynllun i 75 y cant** o weithwyr iechyd a chymdeithasol a'r rhai â chyflyrau clinigol gael eu brechu yn gyflawnadwy. At hynny, nod y Cynllun oedd estyn hynny i frechu grwpiau eraill megis y rhai sy'n 50 oed a hŷn.
- Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod **pryderon o hyd ynghylch argaeledd brechlynnau ffliw** i ategu rhaglen estynedig o'r fath, ac, wedi hynny, mae'r **Gweinidog wedi nodi** bod problemau cyflenwad o bosibl yn parhau .
- Hefyd, **clywodd y Pwyllgor gan ICC** ei bod yn annhebygol y bydd lleoliadau a staff gofal sylfaenol presennol yn "gallu cynnal rhaglen COVID-19 ar yr un pryd" a bod y "gwaith cynllunio'n rhagdybio y bydd angen gweithlu, lleoliadau a logisteg ar wahân".

### 8.3. Ailddechrau gwasanaethau iechyd cyffredin

- Mae'r defnydd o **wasanaethau'r GIG yng Nghymru wedi cwmpo'n** sylweddol yn ystod yr argyfwng, gyda rhai ffigurau'n nodi **chwmp 62 y cant yn nifer y llawdriniaethau a gynhaliwyd** a **chynnydd sylweddol yn y rhestrau aros**. **Clywodd yr Aelodau gan Brif Weithredwr GIG Cymru** ym mis Gorffennaf y bu **gostyngiad mewn gweithgarwch meddygon teulu, atgyfeiriadau canser a chwymp 50 y cant mewn atgyfeiriadau cleifion allanol yn gyffredinol**, gyda manau cul mewn diagnosteg, ac y **gallai gymryd 3-4 blynedd i adfer o'r argyfwng**.
- Mae'r Pwyllgor wedi clywed **pryderon cleifion am ôl-groniad cynyddol** profion diagnostig, llawdriniaethau, triniaeth ac archwiliadau cyflyrau tymor hir. Fodd bynnag, bu **tystiolaeth o ddychweliad graddol o ystod gyfyngedig o wasanaethau mwy cyffredin**, gyda mwy o atgyfeiriadau a gweithgarwch canser, gwasanaethau diagnostig, cleifion yn y gwasanaethau achosion brys, a mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol wrth ddarparu gofal.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Fframwaith Gweithredu ar gyfer GIG Cymru ar gyfer Chwarter 3/4 o 2020-21** sy'n nodi'r angen i sicrhau **cydbwysedd mewn gwasanaethau rhwng gweithgarwch COVID-19 a gweithgarwch arall**. Ar yr un pryd, mae pryderon ynghylch capasiti gwasanaethau yn y dyfodol.

### 8.4. Profi Orlhain Diogelu (POD)

- O gyhoeddiadau diweddar y Gweinidogion, mae'n amlwg y **bydd angen cynnal profi ac olrhain cysylltiadau ar lefel sylweddol ac am gryn amser**,

gyda'r staff a'r adnoddau angenrheidiol. Mae cyngor gan yr CCT yn nodi bod **angen olrhain 75-90 y cant o gysylltiadau er mwyn i POD fod yn effeithiol**, gyda'r **broses olrhain cysylltiadau i'w chwblhau o fewn 24-36 o oriau**, a **chynnal profion yn amserol, yn ddelfrydol o fewn 24 awr**.

- Lleisiodd y Pwyllgor bryderon ynghylch **mynediad gwael at brofion** ac roedd yn anffodlon ar yr **amser araf ar gyfer cynnal profion**, yn enwedig yn labordai'r Goleudy. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn rhoi **£32 miliwn ychwanegol i gynyddu capasiti'r labordai yng Nghymru**.

## 8.5. Gofal cymdeithasol

- Mae **pryderon sylweddol ynghylch cynnydd diweddar mewn oedi wrth ddychwelyd canlyniadau profion ar gyfer cartrefi gofal**. Clywodd y Pwyllgor gan arweinwyr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fod oedi wrth ddychwelyd canlyniadau wedi gwaethygu (ar ôl gwella ychydig o fisoedd yn ôl) gan achosi braw i bawb dan sylw.
- Mae'r Aelodau a rhanddeiliaid yn poeni fwyfwy am y **niwed sylweddol sy'n cael ei achosi drwy wrthod cyswllt ag anwyliaid mewn cartrefi gofal am gyfnodau estynedig** (mae ymweliadau'n dod i ben eto yn y rhan fwyaf o ardaloedd lle mae cyfyngiadau lleol). Mae rhanddeiliaid fel y **Çomışinydd. Pöb! Hÿn** yn galw am **atebion creadigol** er mwyn i ymweliadau barhau (gyda mesurau diogelwch ar waith).
- Mae pryder cynyddol am **les gofalwyr di-dâl yng Nghymru** wrth i'r pandemig fynd rhagddo. Mae llawer o ofalwyr wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu, pan **ddaeth gwasanaethau cymorth gofalwyr i ben** yr un pryd. Soniodd CLILC fod gofalwyr yn agored i niwed, gyda llawer bellach yn cael trafferth ymdopi. Dywedodd CLILC y byddai'n **croesawu rhagor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl**.

## 8.6. Iechyd meddwl

- Pryder sylweddol gan y Pwyllgor oedd y datgysylltiad rhwng y sicrwydd roedd y Gweinidog wedi'i roi i'r Pwyllgor o'r blaen (yn seiliedig ar wybodaeth a roddodd byrddau iechyd iddo) am **barhad gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig**, a'r **profiad ar lawr gwlad pan fo llawer o bobl wedi cael trafferth cael gafael ar help**.
- Mae pryder ynghylch **ôl-groniad o achosion** (gan gynnwys y rhai y gallai eu problemau iechyd meddwl presennol fod wedi gwaethygu a'r rhai ag anghenion newydd am gymorth), a **gallu gwasanaethau i ateb y galw hwn**, yn enwedig o gofio'r **rhestrau aros hir oedd gennym cyn y pandemig**.

## 9. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

### 9.1. Deddfwriaeth

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud **llawer o ddeddfwriaeth mewn ymateb i bandemig y coronafeirws**, gan gynnwys gosod cyfyngiadau symud. Bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu ar gyfyngiadau'r coronafeirws, yn benodol i asesu pa mor hawdd y mae i'r cyhoedd gael gafael arnynt, eu deall a chydymffurfio â hwy.

### 9.2. Cyfiawnder

- Mae'r pandemig wedi cael **effaith ddifrifol ar y system gyfiawnder yng Nghymru**. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws hefyd wedi effeithio ar ei chapasiti i **weithredu argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ar 12 Hydref a chan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ym mis Gorffennaf.
- Un broblem allweddol yw effaith y pandemig ar **fynediad at gyfiawnder**. Trafododd y Pwyllgor hyn â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ac â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## 10. Y Pwyllgor Deisebau

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael ystod eang o ddeisebau mewn perthynas â'r pandemig. Mae rhestr isod o rai enghreifftiau o'r deisebau a drafododd y Pwyllgor, wedi'u trefnu yn ôl thema.

Newidiadau i'r rheoliadau ac, yn benodol, esemptiadau i gyfyngiadau:

- **Caniatáu i blant fynd i mewn i ardaloedd dan gyfyngiadau symud i barhau i hyfforddi gyda'u clybiau chwaraeon (llofnodwyd gan fwy na 9,000 o bobl);**
- **Caniatáu swigod cefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud;**
- **Addasu'r neges cyfyngiadau symud lleol i "Aros yn Lleol" yn hytrach nag aros o fewn ffiniau sirol.**

Cymorth ariannol i fusnesau bach a busnesau mewn sectorau penodol:

- **Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru**

Caniatáu i ddigwyddiadau a pherfformiadau gael eu cynnal:

- **Llaciwch y cyfyngiadau gormodol i ganiatáu i raliau chwaraeon modur gael eu cynnal yng Nghymru;**
- **Caniatáu clybiau pêl-droed domestig Cymru i chwarae gemau cyfeillgar, a chaniatáu cefnogwyr i fynd i'r gemau;**
- **Dylid ailagor theatrau a lleoliadau perfformio yng Nghymru mewn pryd ar gyfer tymor yr Ŵyl.**

Ysgolion ac addysg:

- **Dyfarnwch raddau a ragwelwyd gan athrawon i holl fyfyrwyr Cymru ar gyfer arholiadau 2020 (llofnodwyd gan fwy nag 28,000 o bobl);**
- **Tegwch i fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau yn 2021**

Gwasanaethau gofal iechyd:

- **Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth;**
- **Ailagor gwasanaethau deintyddol cyffredinol llawn yng Nghymru fel sydd wedi digwydd yn Lloegr.**

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rhagor o gamau gyda rhai deisebau. Ar 8 Gorffennaf, cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar ddeiseb yn galw i **annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru.**



## 11. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

### 11.1. Addysg

Ar 3 Awst 2020, parhaodd y Pwyllgor â'i ymchwiliad i COVID-19, gan gymryd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n berthnasol i addysg:

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu mai **dim ond ym mis Awst y cyhoeddwyd y canllawiau ar gyfer ailddechrau addysg amser llawn ym mis Medi**, a oedd ar ben yr hyn a nodwyd ym mis Gorffennaf. Ni roddodd hyn amser i staff addysgu ystyried a gweithredu'r canllawiau ychwanegol cyn tymor yr hydref. Hefyd, nododd y Pwyllgor nad oedd y canllawiau, **bryd hynny, yn nodi datganiad clir ynghylch beth oedd ystyr 'cadw pellter cymdeithasol'** yn yr ysgol **yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru** (yn weithredol o 3 Awst) **nad oes rhaid i blant dan 11 oed gadw pellter cymdeithasol mwyach**.
- Roedd yn ymddangos bod **diffyg eglurder a chysondeb o ran darpariaeth prydau ysgol ym mis Medi**: a fyddai prydau poeth yn cael eu darparu a pha ddewisiadau eraill a fyddai ar gael. Hefyd, nid oedd **yn glir a fyddai modd i'r holl glybiau brecwast ac ar ôl ysgol ailagor**.
- Roedd y Pwyllgor yn siomedig o glywed **nad aethpwyd ymlaen ymhellach â gwaith Estyn ar werthuso arferion da mewn perthynas â phrofiad disgyblion yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud**. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai camau'n cael eu cymryd mewn perthynas ag ysgolion sy'n tanberfformio i leihau'r niwed i ddisgyblion.
- Clywodd y Pwyllgor fod **ychydig llai na 1,000 o leoliadau gofal plant yn parhau i fod ar gau, a oedd ychydig yn llai na thraean o'r sector yng Nghymru**. Er iddo gydnabod na fyddai nifer o'r lleoliadau gofal plant hyn yn gweithredu yn ystod yr haf fel arfer, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â'r sector gan fod ar rieni angen sicrwydd y byddai gofal plant ar gael erbyn mis Medi.

### 11.2. Comisiwn y Senedd

- Ar 3 Awst 2020, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn breifat gan **Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â'i ymateb i'r pandemig**. Trafododd yr Aelodau ystod o faterion â swyddogion, gan gynnwys y **trefniadau ar gyfer busnes y Senedd**, trefniadau llywodraethu, cynlluniau yn sgil llacio'r cyfyngiadau symud a'r gwersi a ddysgwyd.
- Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 Comisiwn

y Senedd ym mis Medi. Roedd hyn yn cynnwys trafod **goblygiadau cost COVID-19**, yr heriau ychwanegol sy'n ymwneud â **llesiant staff o ganlyniad i'r pandemig** a sut roedd y Comisiwn yn ymdrin â'r rhain.

### 11.3. Materion eraill

Parhaodd y Pwyllgor i drafod, drwy ohebiaeth, faterion a godwyd yn ystod ei gyfarfod ym mis Awst a sesiynau tystiolaeth cynharach yn ei ymchwiliad.

Fel rhan o'i waith ynghylch trefniadau caffael cyhoeddus, trafododd y Pwyllgor lefelau **ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat wrth gaffael Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) yn ystod y pandemig**. Roedd hyn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i **ddatblygu cadwyni cyflenwi**, ac ymateb i gynigion o gymorth gan y sector preifat, wrth gymhwyso diwydrwydd dyladwy priodol i ddarpar gyflenwyr ar yr un pryd. Bydd y Pwyllgor yn codi'r **gwaith sydd ar ddod ar gaffael CDP gan Archwilio Cymru**.

